

Llwybrau Gyrfa Academaidd – Athro Cysylltiol

Prif Egwyddorion

Deilliant

Er mwyn cyflawni ein huchelgais o fod yn gyson ymysg y 30 Prifysgol orau yn y DU, mae angen gweithlu sydd â'r sgiliau gwahaniaethol angenrheidiol ar gyfer sicrhau ein bod yn gallu darparu rhagoriaeth ym maes ymchwil, addysgu a dysgu ynghyd â phrofiad ehangach ein myfyriwr, ac ar gyfer bod yn rym economaidd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae'r cynllun Llwybrau Gyrfa Academaidd (ACP) wedi'i greu mewn modd sy'n sicrhau bod cryfderau academaidd, boed hynny ym maes ymchwil, dysgu, profiad ehangach myfyrwr, arweinyddiaeth neu arloesedd ac ymgysylltiad i gyd yn cael eu cydnabod, eu datblygu, eu gwerthfawrogi a'u gwobrwyo'n briodol.

Diben y dull hwn o weithredu yw cefnogi pob aelod o'r staff academaidd i weithio i'w llawn botensial. Cynlluniwyd meini prawf y Llwybrau Gyrfa Academaidd er mwyn bod yn dryloyw ac yn deg ac er mwyn arddangos y trothwyau. O ystyried yr amrediad o weithgaredd academaidd, canllawiau yn unig yw'r Lefelau Perfformiad Dangosol yn hytrach na chanllawiau diffiniol.

Fel arfer caiff aelodau newydd o staff eu rhoi ar gyfnod prawf. Wedi iddynt gwblhau'r cyfnod prawf hwnnw, cânt eu cefnogi trwy gyfrwng proses Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (PDR) y Brifysgol.

Llinynnau a Meini Prawf



1. Mae tri maen prawf Craidd sy'n rhaid eu cyflawni drwy bob gradd academaidd fel Darlithydd, Uwch Ddarlithydd, Athro Cyswllt ac Athro (graddau 8-11):

- Rheolaeth Graidd
- Ymchwil Craidd
- Addysgu Craidd

2. Mae 3 llinyn academaidd Uwch:

- Ymchwil Uwch
- Addysgu ac Ysgolheictod Uwch
- Arloesedd ac Ymgysylltiad (ADY) Uwch.

Dangosir y tri llwybr gyrfa, sy'n seiliedig ar ragoriaeth ym maes ymchwil (R), addysgu ac ysgolheictod (T) neu arloesedd ac ymgysylltiad (IE) isod ar ffurf diagram. Fel rhan o'r llwybrau gyrfa mae'n rhaid cyflawni'r meini prawf Craidd ar bob lefel, er enghraifft Rheolaeth sy'n gyffredin i bob llinyn.



3. Mae'r un 4 maen prawf Uwch yn berthnasol i bob lefel ar y raddfa ond eu bod yn fwy heriol o un lefel i'r nesaf.
4. Mae'r meini prawf sy'n cael eu nodi ar gyfer y graddau is yn cael eu cymryd yn ganiataol ar gyfer graddau uwch pob llinyn (e.e. mae'r meini prawf a nodir ar gyfer gradd 8 yn cael eu cymryd yn ganiataol ar gyfer gradd 9).
5. Mae'r Llwybrau Gyrfa Academaidd wedi'u creu i fod yn ddatblygiadol. Dylai aelodau o staff gael eu cefnogi yn eu datblygiad. Mae datblygiad yr aelodau hynny o staff sydd ar brawf yn cael ei ystyried yn ystod eu cyfnod prawf.

Meini Prawf

6. Mae gan bob maen prawf ar gyfer pob gradd enghreifftiau diffiniedig o'r dystiolaeth ychwanegol sydd ei hangen ar gyfer cyflawni'r maen prawf.
7. Caiff arweinyddiaeth academaidd (o ran bod aelodau o staff yn arweinwyr yn eu maes) ei ymgorffori yn y llinynnau academaidd.

Lefelau Perfformiad Dangosol

8. Mae gan bob maen prawf ar gyfer pob gradd enghreifftiau wedi'u ddiffinio'n glir a Lefelau Perfformiad Dangosol. Os oes mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, yna fe nodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.
9. Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol yn berthnasol pro rata ar gyfer staff rhan amser a chânt eu hystyried yn ôl yr hyn sy'n addas. Dylai staff rhan amser arddangos yr un nodweddion ag a nodir yn y Lefelau Perfformiad Dangosol ond efallai y gall llai o enghreifftiau fod yn addas ar gyfer staff rhan amser.
10. Mae'r egwyddorion a bennwyd yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014 o safbwynt amgylchiadau staff unigol yn berthnasol i'r Lefelau Perfformiad Dangosol, er enghraifft, o safbwynt cyfnod mamolaeth, seibiannau gyrfa, anabled, cyfrifoldebau gofalu ayb.

Mae ystyriaeth o ran cynnyrch ymchwil hefyd yn berthnasol i ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa mewn modd tebyg i REF 2014. Mae manylion pellach o'r Cod Ymarfer REF i'w weld [yma](#).

11. Caiff staff academaidd clinigol* eu hystyried yn erbyn y Lefelau Perfformiad Dangosol ar sail pro-rata, ar sail y gyfran o'u cytundeb sy'n academaidd, yn yr un modd â staff rhan amser. (*Ddim yn berthnasol i benodiadau er anrhydedd).

Dyrchafiad Academaidd

12. Mae gan bob maen prawf ar gyfer pob gradd nifer o 'Lefelau Perfformiad Dangosol' ynghyd ag enghreifftiau o sut y gellir cyflawni'r meini prawf hynny. Mae Lefelau Perfformiad Dangosol yn dangos beth a ddisgwylir gan staff sy'n ymgeisio am dyrchafiad.
13. Bydd angen i ymgeiswyr arddangos:
 - Y meini prawf uwch o fewn y llinyn a ddewiswyd ganddynt (Ymchwil, Addysgu ac Ysgolheictod neu Arloesedd ac Ymgysylltiad) ar gyfer y radd y maent yn ymgeisio amdani;

a'r

- meini prawf Craidd mewn Rheolaeth a'r meini prawf Craidd yn naill ai Addysgu neu Ymchwil (h.y. nid yn y llinyn a ddewiswyd).

14. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymgeisio am ddyrchafiad ddangos sut y gwnaethant gyflawni'r meini prawf a nodir yn y proffil rôl perthnasol. Er mwyn gwneud hyn fe ddylai'r ymgeisydd egluro'r canlynol yn ofalus yn eu cais:

- Sut y llwyddwyd i gyflawni'r lefel o gymhwysedd a awgrymir gan y Lefelau Perfformiad Dangosol ar gyfer pob un o'r meini prawf.
- Arddangos sut y llwyddwyd i gyflawni'r lefel perfformiad perthnasol, gan roi enghreifftiau o'u gwaith, a thystiolaeth i gefnogi (gall yr enghreifftiau fod yn debyg iawn i'r enghreifftiau a nodir yn y proffil rôl, neu'n enghreifftiau gwahanol, cyn belled â'u bod o ansawdd tebyg).

15. Pan na fydd ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod yn cydymffurfio'n llawn neu'n rhannol â maen prawf penodol, ond eu bod, serch hynny, yn ystyried eu bod yn gymwys ar gyfer dyrchafiad ar sail eu cryfderau mewn meysydd sy'n ymwneud â meini prawf eraill o fewn y llinyn gyrfa, ni ddylid eu rhwystro rhag gwneud cais am ddyrchafiad. Dan yr amgylchiadau hyn, dylai ymgeiswyr:

- sicrhau bod cryfderau mewn meysydd eraill yn cael eu hegluro'n fanwl a darparu tystiolaeth lawn; ac
- egluro pam nad oes modd cyflawni maen prawf penodol, ac os yn berthnasol, darparu tystiolaeth i gefnogi hynny.

16. Pan fo ymgeisydd yn ceisio cadarnhau maen prawf, yna fe ddylai'r Lefel Perfformiad Dangosol a'r enghreifftiau sy'n cael eu cynnwys ar gyfer pob maen prawf gael eu hystyried fel canllaw ar gyfer y lefel perfformiad sydd i'w arddangos er mwyn gwneud cais am ddyrchafiad. Yn gyntaf, dylai ymgeiswyr ystyried os ydynt yn cyflawni'r dangosyddion sydd ochr yn ochr â phob maen prawf. Os nad yw'r rhain yn cael eu cyflawni yna dylai'r ymgeiswyr ystyried a ydynt yn gallu cynnig tystiolaeth ar lefel gymharol.

Os nad yw ymgeiswyr yn gallu dangos eu bod wedi cyflawni Lefel Perfformiad Dangosol penodol, yna mae'n bosib y bydd modd iddynt arddangos cywerthedd gan ei gwneud yn glir mai dyma'r bwriad ac egluro sut mae modd iddynt hawlio cywerthedd. Mae'r Pwyllgor Dyrchafiad yn ystyried bob maen prawf a'r dystiolaeth a ddarparwyd ond mae hefyd yn ystyried y cais cyflawn mewn modd cyfannol.

Ni ddylai ymgeiswyr sy'n ystyried eu bod wedi cyflawni'r holl Lefelau Perfformiad Dangosol gymryd yn ganiataol fod dyrchafiad yn awtomatig. Dylai ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ac enghreifftiau digonol er mwyn i'r panel allu ystyried eu cais am ddyrchafiad yn llawn.

Awst 2018

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
1	<p><u>Cyfrannu at ein Gweithgareddau</u></p> <p>Cyfrannu'n weithredol at wneud penderfyniadau'r Coleg neu'r Brifysgol a chyfrannu at weithgareddau y tu hwnt i ymrwymïadau uniongyrchol eich gwaith ymchwil, addysgu neu ysgolheictod.</p>	<p>Eich 4 prif gyfraniad yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf sy'n dangos eich cyfraniad a'ch effaith personol.</p> <p>Gallai'r effaith fod ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eich myfyrwyr neu eich tîm • eich disgyblaeth neu eich adran • eich Coleg • y Brifysgol • yn allanol 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai meysydd enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • aelod o Bwyllgor Coleg neu Bwyllgor Prifysgol • cyfrannu'n weithredol at fentrau neu fesurau sy'n hybu cydraddoldeb • aelod o weithgor yn y Coleg neu'r Adran a sefydlwyd er mwyn gwneud argymhellion i Bwyllgor Coleg, e.e. <ul style="list-style-type: none"> - gwneud argymhellion yn ymwneud â newidiadau i asesiad modiwl i'r Pwyllgor Coleg/Ysgol perthnasol - gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyfeiriadau dysgu posib - gwneud penderfyniadau ynglŷn â llwybrau ymchwil posib i'w dilyn neu am fethodoleg arloesol y gellid ei mabwysiadu - adolygu a gwella gweithdrefnau mewnol (e.e. asesu, trefniadau bugeiliol, amserlennu) • mentrau Profiad Myfyrwyr, e.e. <ul style="list-style-type: none"> - gwella profiad myfyrwyr o ran gofal bugeiliol - gwella profiad myfyrwyr rhyngwladol e.e. eu helpu i integreiddio i'r gymuned ehangach o fyfyrwyr - gwella profiad myfyrwyr anhraddodiadol, myfyrwyr anabl neu fyfyrwyr o leiafrif ethnig - gwella profiad myfyrwyr ar leoliad gwaith • proses dderbyn a recriwtio'r Coleg trwy gymryd rhan mewn cyfweiliadau neu trwy wneud cyflwyniadau • recriwtio myfyrwyr rhyngwladol • cyflawni rolau cydlynol yn effeithiol, fel cydlynu gwaith maes neu leoliadau gwaith myfyrwyr • cyfrannu at gynhadledd/gweithdy, trefniadau arholiad neu ddigwyddiad allanol • cyfrannu at sefydlu systemau gwybodaeth neu gyfathrebu ar gyfer y Coleg neu'n allanol • cydweithio ar draws y Brifysgol a thu hwnt.

Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Craidd - Rheolaeth (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
2	<p><u>Cymryd Rhan mewn Gweithgareddau Proffesiynol</u></p> <p>Ymgymryd â gweithgareddau proffesiynol sy'n ymwneud â'r ddisgyblaeth drwy rwydweithio mewn cynadleddau neu gymryd rhan mewn grwpiau allanol.</p>	<p>Eich 2 gyfraniad mwyaf arwyddocaol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf sy'n dangos eich cyfraniad a'ch effaith personol.</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai meysydd enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • aelod gweithredol o rwydweithiau allanol, e.e. er mwyn sicrhau cyllid neu hybu dealltwriaeth • drwy ddatblygu cysylltiadau y tu hwnt i dimau ymchwil neu dimau addysgu er mwyn adeiladu ar arbenigedd academaidd, ac er mwyn trafod a rhannu gwybodaeth a syniadau • cymryd rhan mewn grwpiau pwnc arbenigol ar lefel genedlaethol (e.e. ar gyfer ymchwil neu ysgolheictod) • fel aelod o ac ymwneud â chorff proffesiynol allanol drwy fynychu digwyddiadau • drwy gorff allanol neu broffesiynol • drwy rwydweithiau proffesiynol • gyda rhanddeiliaid allanol • cynnal cymwysterau/statws proffesiynol
3	<p><u>Rheoli Eich Hunan ac Eraill</u></p> <p>Cefnogi a galluogi datblygiad eich cydweithwyr a/neu eich myfyrwyr a chi eich hunan.</p>	<p>Eich 2 gyfraniad mwyaf arwyddocaol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf sy'n dangos eich cyfraniad a'ch effaith personol.</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <p><i>(Noder.1 Peidiwch â defnyddio enwau personol yn yr enghreifftiau.)</i></p> <p><i>(Noder. 2 Yn achos rolau uwch, efallai y bydd y pwyslais ar gefnogi a datblygu cydweithwyr)</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • arddangos gwerthoedd arweinyddol er mwyn i eraill eu hefelychu • cyfrannu at hybu amgylchedd sy'n hyrwyddo cydraddoldeb, ymddiriedaeth, parch a chydweithrediad • cyfraniad at weithio ar y cyd • ceisio adborth gan fyfyrwyr a chydweithwyr a gweithredu ar yr adborth a dderbyniwyd • arddangos gwelliant parhaus drwy, er enghraifft, adolygu llawlyfrau modiwlau neu gyrsiau, cofrestru, recriwtio, derbyniadau neu'r cwricwlwm a'r effaith a gafodd hynny • sefydlu a chynnal datblygiad gyrfa trwy hyfforddiant a gweithgareddau datblygu (e.e. mentora, adolygu'r Adolygiad Datblygiad Personol (PDR), paratoi ceisiadau am arian ymchwil neu adolygu addysgu cydweithwyr) • mentora a datblygu cydweithwyr.

Noder:

- Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

**Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Craidd - Addysgu**

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
1	<p><u>Addysgu ac Adolygu Addysgu</u></p> <p>Cyfrannu at gyrsiau o fewn y portffolio dysgu, adolygu a diweddarau'r deunyddiau ar gyfer y cyrsiau a ddysgir a'r sesiynau a gyflwynwyd gan ddefnyddio'r dulliau cyflwyno mwyaf addas.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod yn dilyn y polisi a'r drefn Dysgu ac Addysgu.</p> <p>Datblygu a chyflwyno'r addysgu i safon addas. Asesu a sicrhau ansawdd elfennau o'r portffolio dysgu, o fewn yr uned academaidd.</p> <p>Ymgymryd â datblygiad rhaglenni cyrsiau/modiwlau.</p> <p>Cyfrannu at Brofiad y Myfyriwr a Chyflogadwyedd.</p>	<p><u>Cyflenwi</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o effaith gadarnhaol ar addysgu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI) y Brifysgol <ul style="list-style-type: none"> gwell dilyniant/dargadwedd (<i>retention</i>) mentora academaidd canlyniadau llwyddiannus i fodiwlau - y nifer o raddau dosbarth cyntaf, 2.1 ac ati, gan leihau cyfradd methiant modiwlau. Sgôr Adborth ar gyfer Cwestiynau 1, 2 a 3 o Adborth Myfyrwyr ar Fodiwlau yn y chwarterl isaf, o leiaf, ar gyfartaledd dros gyfnod o 3 mlynedd. Tystiolaeth o lwyddiant wrth oruchwylio prosiectau myfyrwyr (gan ddangos y nifer o fyfyrwyr a oruchwyliwyd, a'u cefnogi drwy'r broses ymchwil). Tystiolaeth o adborth llwyddiannus gan ddysgwyr proffesiynol. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <p><u>Cyflenwi</u></p> <ul style="list-style-type: none"> sylwadau'n ymwneud â swm ac ystod yr addysgu datblygu cyrsiau newydd sydd wedi denu myfyrwyr gweithredu fel cydlynnydd modiwl cymryd cyfrifoldeb am fodiwl Israddedig penodol/rhannau o fodiwl neu greu modiwl newydd tystiolaeth o ymgysylltu gyda'r corff myfyrwyr er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n cynnig adborth a chryfhau llais y myfyriwr sicrhau fod y cynnwys a'r deunydd addysgu'n gyfredol, yn cynnwys deilliannau dysgu, cynlluniau'r modiwlau, deunyddiau dysgu, cynlluniau asesu a strategaeth addysgu'r modiwlau sicrhau asesu effeithiol, ymateb ac adborth i'r myfyrwyr o fewn cyfnod addas o amser, cydymffurfio ag amserlenni y cytunwyd arnynt o safbwynt cyflwyno adborth cynllunio a chyflwyno eich addysgu gan ddefnyddio arddull/dull addas i gyflawni'r amcanion dysgu a ddynodwyd goruchwylio myfyrwyr prosiect ar gyfer graddau israddedig ac ôl-radd sy'n cael eu haddysgu tystiolaeth o fod yn diwtor personol /mentor academaidd effeithiol (gall y dystiolaeth gynnwys cyfraddau tynnu allan ynghyd â chyfraddau dargadwedd ar lefel rhaglen; y nifer o'r rhai sy'n cael eu tiwtora; cefnogaeth o safbwynt gweithgareddau cyflogadwyaeth ac ehangu mynediad a'r nifer sy'n cymryd rhan) paratoi a chyflwyno Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) a derbyn ac ymateb i adborth.

Adolygu

- Tystiolaeth o
 - ymdrech weithredol i geisio adborth
 - gwelliannau a wnaed yn sgil yr adborth
 - effaith gadarnhaol

Adolygu

- cymryd rhan weithredol yn adolygu a datblygu'r ddarpariaeth
- adolygu'r addysgu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i brofiad cyflawn y myfyriwr gan gynnwys ystyried materion yn ymwneud â chyflogadwyedd neu fynediad ehangach
- addasu dulliau cyflwyno a chynnwys yr addysgu'n briodol yn sgil adborth ffurfiol ac anffurfiol a dderbyniwyd
- cyflwyno syniadau er mwyn gwella a diweddarau cwrs penodol er mwyn ei wneud yn fwy apelgar i fyfyrwyr
- derbyn adborth cadarnhaol oddi wrth fyfyrwyr (e.e. gwerthuso modiwlau, cyfarfod â myfyrwyr, gwerthuso ar-lein trwy gyfrwng holiaduron adborth myfyrwyr)
- ymwneud yn gadarnhaol â'r broses arsylwi cymheiriaid
- rhoi ystyriaeth i unrhyw anghenion penodol sydd gan fyfyrwyr rhyngwladol / myfyrwyr anabl / myfyrwyr sydd wedi cymhwyso mewn modd anhraddodiadol / myfyrwyr anhraddodiadol, wrth ddarparu addysg
- ymwneud ag adolygu dulliau addysgu neu gwricwla modiwlau / rhaglenni
- cyfrannu at welliant yr Adolygiad Coleg.

Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Craidd - Addysgu (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
2	<p><u>Arloesedd ac Effaith Addysgol</u></p> <p>Arddangos ymwybyddiaeth o ymchwil a gwybodaeth gyfredol yn y maes ac ymgorffori hynny yn yr addysgu drwy ddatblygu arfer yn sgil hynny.</p> <p>Arfer arloesol neu arfer sy'n gwella'r addysgu.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Ymgorffori gwelliannau i'r addysgu'n llwyddiannus. • Tystiolaeth o adborth gan gymheiriaid. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • yr addysgu wedi'i ategu gan y ddealltwriaeth ddiweddaraf/gyfredol ar lefel sy'n addas i'r myfyrwyr ar sail ymchwil/ysgolheictod yn y maes ac yn deillio'n uniongyrchol o hyn • rhannu arfer dda gydag eraill • diweddarau adnoddau er mwyn cydymffurfio â chynnwys polisïau cyfredol a gofynion cyrff proffesiynol • addasu gwaith yng ngoleuni sylwadau arholwyr allanol neu gymheiriaid • arloesedd o safbwynt dulliau addysgu ac asesu'r arloesedd hwnnw • adolygu'r addysgu er mwyn sicrhau ei fod yn berthnasol i brofiad cyflawn y myfyrwyr ac ystyried cyflogadwyedd neu faterion mynediad ehangach • gweithredu arloesedd addysgol yn llwyddiannus ac effaith hyn ar y myfyrwyr. <p>Ceir enghreifftiau pellach o arloesedd addysgol ar wefan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ar https://salt.swan.ac.uk/cy/cpd/</p>

Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Craidd - Addysgu (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
3	<p><u>Cydnabyddiaeth</u> Cydnabyddiaeth broffesiynol.</p> <p>Ymgymryd â a chwblhau cymhwyster addysgu proffesiynol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Yn meddu ar neu'n gweithio tuag at ac yn ennill Cymrodoriaeth yr Academi Addysg Uwch (HEA) neu gyfatebol fel y'i cymeradwyir gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). <p>(Gweler y diffiniad diwygiedig ar gyfer 2018 o 'gweithio tuag at' yn atodiad C.)</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> cymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch (HEA) neu'n gweithio tuag at Gymrodoriaeth HEA neu gymhwyster cyfatebol e.e. Academi Addysgwyr Meddygol (AOME) (Cydnabyddiaeth Addysgwyr Meddygol) ymgymryd â a chwblhau cymhwyster addysgu cydnabyddedig megis y cymhwyster achrededig Dysgu mewn Addysg Uwch (tHE), Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) neu gymhwyster dysgu proffesiynol cydnabyddedig arall cyflawni gweithgareddau angenrheidiol eraill o ddydd i ddydd cydnabyddiaeth cymheiriaid yn y maes.
4	<p><u>Datblygu a Gweithredu Dulliau Dysgu</u> Cyfrifoldeb am ddatblygu eich dulliau dysgu personol.</p>	<p>Tystiolaeth o ddatblygiad personol parhaus trwy gyfrwng Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) yn ystod y tair blynedd ddiwethaf a thystiolaeth o'i effaith ar eich addysgu.</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltiad â gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus fel adolygiadau cymheiriaid, gweithdai, cyrsiau datblygiad proffesiynol sydd wedi arwain at wella eich dulliau o addysgu cyfrannu at ddatblygu'r addysgu o fewn y coleg mynychu cynadleddau sydd wedi arwain at welliant yn eich dulliau o addysgu.
<p>Noder:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgygliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd. Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras. 			

Llwybrau Gyrfa Academaidd

Meini Prawf Craidd - Ymchwil

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
1	<p><u>Allbynnau a Gweithgareddau Ymchwil</u></p> <p>Rhannu casgliadau ymchwil â'r Brifysgol yn ysgrifenedig, ar lafar neu drwy gyfryngau addas eraill yn fewnol ac yn allanol.</p>	<p>Dau gyhoeddiad o safon mewn 5 mlynedd.</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> cyhoeddiadau a/neu gynnyrch arall – llyfrau, erthyglau, cyhoeddiadau ar y cyd, argraffiad newydd o destun, cyfieithiadau, gweithiau creadigol, gwefannau, setiau data, papurau polisi, adroddiadau ymchwil i safon addas ar gyfer y maes academaidd dan sylw.
2	<p><u>Prosiectau a Grantiau Ymchwil</u></p> <p>Sicrhau'r adnoddau sy'n ofynnol i ategu gweithgarwch ymchwil/ysgolheigaid/arloesol yn llwyddiannus, fel y bo'n briodol i'r ddisgyblaeth.</p>	<p>Un cais am adnoddau sy'n berthnasol i'r maes bob blwyddyn, dros gyfnod o bum mlynedd, yn debyg i'r rhai a nodir yn y blwch enghreifftiol</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> gall y mathau o adnoddau amrywio, yn ddibynnol ar y maes, a gellir eu cyflawni naill ai'n annibynnol neu ar y cyd ag eraill cyfraniadau annibynnol neu gyfraniadau sylweddol er mwyn sicrhau nawdd neu dderbyn adnoddau eraill angenrheidiol er mwyn cyflawni'r ymchwil sicrhau mynediad i lyfrgell neu gasgliad arbennig, sicrhau grantiau teithio, nawdd i lwyfannu perfformiad neu arddangosfa, sefydlu rhwydwaith, cysylltu nawdd/gweithgaredd PER gyda phrosiectau ymchwil tystiolaeth fod y prosiect ymchwil wedi ei gynnal yn llwyddiannus.

Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Craidd - Ymchwil (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
3	<p><u>Cydnabyddiaeth</u> Cyfrannu at y gymuned academaidd ehangach gydag effaith amlwg a chydabyddiaeth oddi wrth ffynonellau mewnol ac allanol.</p>	<p>Tystiolaeth o gefnogi'r gymuned broffesiynol berthnasol</p> <p>Un cyflwyniad y flwyddyn mewn cynhadledd, seminar neu weithdy gydag effaith/cyrhaeddiant allanol.</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneud cyflwyniadau mewn cynadleddau, gweithdai a fforymau eraill (mewnol ac allanol) yn y DU a lle bo'n berthnasol mewn gwlad arall • ymgysylltu â chyrrff cyhoeddus, e.e. Rhaglenni Dogfen y BBC, amgueddfeydd, gwyliau gwyddonol neu gelfyddydol • ymgysylltu â chyrrff polisi, e.e. Comisiynau, Pwyllgorau Seneddol, Cyrff Anllywodraethol (NGO) • paratoi cyflwyniadau/gweithgareddau/deunydd ar gyfer ymgysylltiad y cyhoedd â'r Brifysgol, e.e. Gŵyl Wyddoniaeth Abertawe/<i>Famelab</i>/<i>Oriel</i>/<i>Caffi Gwyddoniaeth</i>/<i>Ymchwil</i> fel Celfyddyd. • Gweithredu fel aelod o banel dyfarnu cyllid allanol, fel arholwr allanol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig, adolygiad ysgolheigaidd
<p>Noder:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd. • Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras. 			

Athro Cyswllt – Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Uwch – Addysgu ac Ysgolheictod

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
1	<p><u>Addysgu ac Adolygu'r Addysgu</u></p> <p>Addysgu, asesu a sicrhau ansawdd rhaglenni astudio mewn modd effeithiol.</p> <p>Ymateb i adborth a dderbyniwyd ac adolygu gweithgareddau addysgu ar lefel rhaglen, er mwyn sicrhau bod y deilliannau dysgu'n cael eu cyflawni'n effeithiol, gan ystyried yr adborth a dderbyniwyd.</p> <p>Ymgymryd â rôl arweiniol o safbwynt dysgu, addysgu ac asesu.</p>	<p><u>Cyflenwi</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o effaith yr addysgu ar raglenni drwy well Prif Ddangosyddion Perfformiad megis <ul style="list-style-type: none"> cynnydd yn nifer y myfyrwyr ar raglenni cynnydd yn nargadwedd (<i>retention</i>) myfyrwyr sy'n dilyn y rhaglenni rhaglenni newydd ychwanegol. Sgôr Adborth ar gyfer Cwestiynau 1, 2 a 3 o Adborth Myfyrwyr ar Fodiwlau yn y chwarter canolig, o leiaf, ar gyfartaledd dros gyfnod o 3 mlynedd. (gweler <i>manyllion yn ATODIAD B</i>). <p><u>Adolygu</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o <ul style="list-style-type: none"> ymdrech weithredol i geisio adborth gwelliannau a wnaed yn sgil yr adborth effaith gadarnhaol. Arweinydd portffolio/ Cyfarwyddwr Rhaglen/ arweinydd llwyddiannus a pharhaus dros 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> sylwadau'n ymwneud â swm ac ystod yr addysgu arwain tîm sy'n cyflenwi addysgu o ansawdd uchel fel y tystiolaethir gan adborth cadarnhaol oddi wrth fyfyrwyr, cydweithwyr ac arholwyr allanol a'i effaith arwain ar brosesau ansawdd ac adolygu neu dystiolaeth o gyfraniad sylweddol i'r broses sicrhau neu wella ansawdd, er enghraifft drwy aelodaeth o weithgor neu is-bwyllgor sefydliadol neu golegol; neu drwy ymgymryd â rôl addysgu uwch o fewn y brifysgol fel Cadeirydd/Is-gadeirydd Pwyllgor neu rôl gyfatebol gweithredu fel Cyfarwyddwr Rhaglen neu Gyfarwyddwr Portffolio, gyda thystiolaeth o ymateb i adborth gan fyfyrwyr, cymheiriaid neu arholwr allanol ar lefel rhaglen bod â rôl arweiniol uwch yn yr Adolygiad Cyfnodol o'r Rhaglen (<i>Periodic Programme Review</i>), Achrediad Corff Proffesiynol neu adolygiad ansawdd arall datblygu a gweithredu dulliau newydd o dderbyn adborth ac asesu'r adborth hwnnw ar lefel rhaglen neu rannau o raglenni tystiolaeth o ymgysylltu gyda'r corff myfyrwyr er mwyn cynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n cynnig adborth a chryfhau llais y myfyriwr cyfrannu at arwain gwelliant llwyddiannus ym metrigau'r Coleg o ran y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) cyfrannu at sicrhau fod gweithgareddau wedi'u halinio â strategaeth Dysgu ac Addysgu'r Brifysgol a'r Coleg.

	gyfnod o 3 blynedd.	
--	---------------------	--

Athro Cyswllt – Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Uwch – Addysgu ac Ysgolheictod

	Meini Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
2	<p><u>Arloesedd ac Effaith ym maes Addysgu</u></p> <p>Arferion addysgu'n seiliedig ar ymchwil personol neu ymchwil gan eraill neu'n ar wybodaeth o arfer personol.</p> <p>Chwarae rôl weithredol ac arwyddocaol o safbwynt cyfeiriad a datblygiad strategol Addysgu ac Ysgolheictod yn y Coleg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Tystiolaeth o weithredu gwelliannau o ran arferion addysgu personol yn gysylltiedig â meincnodau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (QAA) o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf. Rôl arweiniol yng ngwella addysgu cydweithredol o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf. Hanes cyson o weithgareddau sy'n ymwneud ag Addysgu ac Ysgolheictod sy'n arwain at ganlyniadau amlwg neu gyhoeddiadau mewn cyfryngau addas, sy'n dangos cynnydd parhaus. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> diweddarau rhaglenni yn sgil canfyddiadau neu ddatblygiadau newydd o fewn y ddisgyblaeth yn unol â gofynion Sicrhau Ansawdd diweddarau rhaglenni yn unol â gofynion/newidiadau cyrff proffesiynol a gofynion Sicrhau Ansawdd gweithredu neu greu arloesedd o safbwynt addysgu a'i rannu â chydweithwyr dangos effaith arwyddocaol ac amlwg ar addysgu ac ysgolheictod, profiad y myfyriwr, strategaethau addysgol, asesu, llywodraeth, iechyd, yr amgylchedd neu fywyd diwylliannol. Dylanwadu ar ac ychwanegu gwerth yn uniongyrchol a mesuradwy i'r Brifysgol a sefydliad allanol ar lefel ranbarthol neu genedlaethol gweithredu arloesedd ym maes addysgu yn llwyddiannus, ac effaith hyn ar fyfyrwyr y Coleg cyfrannu at arloesedd ym maes addysgu o fewn corff proffesiynol gydag effaith hynny i'w weld ar draws y sector. <p>Ceir enghreifftiau pellach o arloesedd addysgol ar wefan Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) ar https://salt.swan.ac.uk/cy/cpd/</p>
3	<p><u>Cydnabyddiaeth</u></p> <p>Ymrwymiad parhaus i rannu ar draws y sector - gyda chanlyniadau hynny i'w gweld.</p> <p>Cyfrannu tuag at effaith addysgu sefydliadol</p> <p>Cydnabyddiaeth allanol o berfformiad ysgolheictod ar y lefel</p>	<ul style="list-style-type: none"> Siaradwr neu drefnydd sesiwn mewn digwyddiad pedagogaid cenedlaethol neu ryngwladol ar 2 achlysur yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf. Uwch Gymrodor o'r HEA neu gorff cyfatebol neu wedi derbyn enwebiad am Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> tystiolaeth o hanes cyson o gyhoeddi llwyddiannus, er enghraifft ar arferion pedagogaid, cynllunio cwricwlwm neu arloesedd ym maes addysgu gwahoddiadau i ddarlithio mewn cynadleddau neu gyfarfodydd proffesiynol yn genedlaethol neu'n rhyngwladol rôl uwch o fewn y Coleg yn ymwneud â gwella'r addysgu, megis Cyfarwyddwr Rhaglen/Portffolio Cymrodoriaeth Uwch yr Academi Addysg Uwch neu gyfatebol neu gymhwyster addysgu Addysg Uwch arall tystiolaeth o gais neu enwebiad ar gyfer gwobr addysgu genedlaethol ar lefel sector neu bwnc

	hon.	<ul style="list-style-type: none">• Gwobr Addysgu Genedlaethol.• O leiaf 3 enghraifft gyda thystiolaeth o gydnabyddiaeth genedlaethol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.	<ul style="list-style-type: none">• tystiolaeth o weithio mewn rôl ymgynghorol allanol, er enghraifft fel arbenigwr pwnc allanol neu Ymgynghorydd Academaidd Allanol <i>Uwch</i>.
--	------	--	---

Athro Cyswllt - Llwybrau Gyrfa Academaidd

Meini Prawf Uwch - Addysgu ac Ysgolheictod (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
4	<u>Datblygu a Hyrwyddo Arfer</u> Hanes o ddatblygiad cynyddol o ran cyfraniad a datblygiad arloesol wrth gefnogi cydweithwyr.	<ul style="list-style-type: none">☐ Tystiolaeth o newid a gwerthuso arfer personol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.☐ Effaith amlwg/rhannu newid er mwyn cefnogi datblygiad athrawon eraill.☐ Gwneud cais llwyddiannus am gyllid neu greu referniw yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf.	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none">• arwain ar ddatblygu arfer ar lefel Coleg, neu arwain ar ddatblygu arfer traws-sefydliadol neu draws-ddisgyblaethol• arwain ar newid ac agweddau o weithgareddau ym maes addysgu o fewn y Coleg neu'r Brifysgol• ymgysylltu â rhwydweithiau addysgol neu gymdeithasau pwnc ar lefel uwch• dystiolaeth o lwyddiant wrth sicrhau cyllid allanol ar gyfer prosiectau dysgu ac addysgu• cyfrannu at ddatblygiad arfer sydd wedi'i ariannu• cyfrannu at ddatblygiad strategaeth, gweledigaeth a chynlluniau i symud dysgu ac addysgu ymlaen ar lefel Coleg neu Brifysgol• llwyddiant o ran creu deunyddiau addysgol sy'n cael eu defnyddio gan sefydliadau eraill• cyfrannu at achrediad rhaglenni'r Brifysgol gan gyrff proffesiynol allanol.
Noder: <ul style="list-style-type: none">• Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.• Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.			

**Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Uwch – Ymchwil**

	Criteria	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
1	<p><u>Allbynnau a Gweithgareddau Ymchwil</u></p> <p>Chwarae rôl weithredol ac allweddol o ran cyfeiriad a datblygiad strategol y maes ymchwil, gyda hanes hir o allbynnau ymchwil ac o rannu'r allbynnau hynny mewn cyhoeddiadau o statws uchel neu gyfryngau eraill, gan ddangos cynnydd parhaus yn ansawdd yr allbynnau ymchwil.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Un cyhoeddiad 4* yn ystod cyfnod o 5 mlynedd ac o leiaf dri chyhoeddiad 3*. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> Awdur, neu Gyd-awdur, astudiaeth achos effaith ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021, ynghyd â phedwar allbwn 3* yn ystod y pum mlynedd diwethaf. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> sylwadau'n ymwneud â sgôr ansawdd cyhoeddiadau (0-12)*, yn enwedig os yw'r cyhoeddiad hwnnw ar y ffin rhwng un lefel a'r llall tystiolaeth o gyhoeddi ffrwyth ymchwil newydd, gwreiddiol gydag effaith sylweddol ar y ddisgyblaeth mewn cyhoeddiad o safon neu debyg hanes parhaus o gyhoeddi ymchwil gwreiddiol yn rheolaidd (cyhoeddi monograffau a llyfrau mewn cyhoeddiadau a gaiff eu hadolygu gan gymheiriaid mewn cyfnodolion a gydnabyddir yn rhyngwladol, cyfraniadau at gyfrolau wedi'u golygu, cyhoeddiadau ysgolheigaidd, catalogau, cronfeydd data ymchwil blaenllaw ac allbynnau ar gyfryngau sy'n addas ar gyfer y maes dan sylw) gwneud cyfraniad sylweddol i astudiaeth achos effaith i'w ystyried ar gyfer ei gyflwyno i'r REF gwneud cyfraniad sylweddol i ddatblygiad strategol maes ymchwil arwain thema ymchwil o fewn Coleg gan gynllunio ei safle ar gyfer y dyfodol a'i ddatblygiad strategol cyfrifoldeb diffiniedig o fewn grŵp ymchwil neu am faes ymchwil penodol tystiolaeth arall sy'n dangos ansawdd cyhoeddiad megis ansawdd y cyfnodolyn, y cyhoeddwr, effaith neu ffactorau cyfeiriadaeth fel sy'n briodol i'r maes cefnogi cydweithwyr o ran allbynnau a gweithgareddau ymchwil cyfrannu at sicrhau fod gweithgareddau wedi'u halinio â strategaeth y Brifysgol a'r Coleg ar gyfer allbynnau a gweithgareddau. <p>* Ceir gwybodaeth bellach ynglŷn â sgôr ansawdd cyhoeddiadau (0-12) ar dudalen: REF Share-point</p>

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
2	<p><u>Prosiectau a Grantiau Ymchwil</u></p> <p>Llwyddiant parhaus o ran sicrhau nawdd sylweddol ar gyfer ymchwil neu adnoddau eraill i gefnogi gwaith ymchwil, gyda chyfrifoldeb am ddatblygu ac arwain rhaglen sylweddol o ymchwil personol neu ymchwil ar y cyd ag eraill.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Prif Ymchwilydd (PI) grant ymchwil, prosiect neu debyg o fewn y 5 mlynedd ddiwethaf. • Dylai'r dyfarniad fod gywerth â'r band Canolig ar gyfer y ddisgyblaeth (<i>gweler y tabl yn Atodiad A</i>). 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • hanes o lwyddiant o ran sicrhau nawdd ar gyfer ymchwil fel Prif Ymchwilydd a Chyd-ymchwilydd gyda mewnbwn sylweddol • llwyddiant o ran denu cyllid gan Gyngorau Ymchwil, yr Undeb Ewropeaidd, ymddiriedolaethau elusennol a diwydiant • cyfrifoldeb am brosiect ymchwil sylweddol neu gyfres o allbynnau cysylltiedig, o'r cysyniad gwreiddiol hyd at gwblhau'r ymchwil • cyfrifoldebau cyllidol am brosiect ymchwil • cyfrifoldeb arweinyddol am reoli prosiect neu rannau sylweddol o brosiect • sefydlu timau ymchwil amlddisgyblaethol • sefydlu gweithgareddau cydweithio rhyngwladol • denu cyllid er mwyn cynnal cyfres o seminarau/cynadleddau • cefnogi cydweithwyr o ran paratoi ceisiadau am grant, er enghraifft, cynnal adolygiad cymheiriaid o geisiadau am grantiau ymchwil • cyfrannu at sicrhau fod gweithgareddau wedi'u halinio â strategaeth y Brifysgol a'r Coleg ar gyfer prosiectau a grantiau.

Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Uwch - Ymchwil (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
3	<p><u>Cydnabyddiaeth</u></p> <p>Yn derbyn cydnabyddiaeth gan ffynonellau allanol fel awdurdod cydnabyddedig o fewn y ddisgyblaeth sy'n cyfrannu at y gymuned academaidd neu broffesiynol ehangach.</p>	<p>Hanes o gymryd rhan mewn cynadleddau'n gyson, sy'n gyfystyr â mynychu un gynhadledd ac iddi gyrhaeddiant cenedlaethol neu ryngwladol y flwyddyn.</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> ☐ dylai'r dystiolaeth ddangos effaith ymchwil bersonol o fewn y pwnc ☐ tystiolaeth o enw da mewn maes ymchwil yn genedlaethol neu'n ryngwladol drwy, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> - gyhoeddiadau a gomisiynwyd - trefnu cynhadledd yn llwyddiannus - bod yn olygydd trafodion neu gyfnodolion - gwahoddiadau cyson i gymryd rhan mewn prif gynadleddau ☐ tystiolaeth o barch cymheiriaid neu anrhydeddau academaidd eraill sy'n cael eu cydnabod yn allanol, er enghraifft: <ul style="list-style-type: none"> - gwobrau neu anrhydeddau academaidd - bod yn ganolwr ar gyfer cyfnodolion - adolygu ceisiadau ar gyfer cyrff sy'n rhoi grantiau - gwasanaethau i gymdeithasau dysgedig ☐ aelod o Goleg adolygu cymheiriaid Cyngor Ymchwil y DU (RCUK) ☐ gwahoddiadau cyson i ddarlithio mewn cynadleddau cenedlaethol neu ryngwladol ☐ tystiolaeth o adolygiadau cyhoeddedig o weithiau ☐ tystiolaeth o barch drwy gyfeiriadau at waith ☐ gwahoddiadau i roi darlithoedd cyweirnod ☐ gwahoddiad i gyflwyno tystiolaeth i asiantaethau neu bwyllgorau'r llywodraeth neu ymwneud â gweithgorau polisi cenedlaethol ☐ cefnogi cymheiriaid o ran derbyn clod am eu gwaith ☐ cyfrannu'n llwyddiannus at drefnu cynhadledd ryngwladol a bod yn gyfrifol am olygu'r trafodion.

Llwybrau Gyrfa Academaidd
Meini Prawf Uwch - Ymchwil (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
4	<p><u>Goruchwylio a Datblygiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd</u></p> <p>Hanes cyson o oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cwblhau'n llwyddiannus (gan gynnwys PhD).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cwblhau o leiaf 1 myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig fel y goruchwyliwr cyntaf yn llwyddiannus o fewn cyfnod o 5 mlynedd ac yn gweithredu fel goruchwyliwr am o leiaf 1 myfyriwr y flwyddyn, fel rhan o gofnod parhaol o gwblhau a goruchwyliaeth myfyriwr ymchwil Ôl-raddedig (gan gynnwys PhD) • Hanes o oruchwylio myfyrwyr PhD. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • sylwadau ynghylch cyfraddau cwblhau a newidiadau mewn cymwysterau ymadael • tystiolaeth o lwyddiant, o gofrestru i gwblhau • tystiolaeth o fod yn brif oruchwyliwr myfyrwyr ôl-radd • goruchwylio, fel goruchwyliwr cyntaf, traethodau hir, traethodau ymchwil a phrosiectau'n llwyddiannus • Profiad o weithredu fel arholwr allanol ar gyfer myfyrwyr PhD • cefnogi cydweithwyr goruchwylio wrth rannu arfer gorau a gwersi a ddysgwyd, ac ymwneud â rhaglen hyfforddi'r Swyddfa Ymchwil Ôl-raddedig er mwyn helpu i gynllunio a chefnogi sesiynau a deunyddiau hyfforddi • cyfrannu at sicrhau gweithgareddau ymchwil ôl-raddedig sy'n tanategu ffrwd ymchwil ôl-raddedig y Strategaeth Ymchwil ac Arloesi, sy'n cynnwys ac yn amlygu rôl a rhagoriaeth goruchwylio • cyfrannu at weithgareddau ar lefel Prifysgol sy'n newid, annog ac ymgorffori diwylliant o ymgysylltiad ymysg myfyrwyr ymchwil ôl-radd, sy'n arwain at ymchwil sy'n cael effaith
<p>Noder:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd. • Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras. 			

Llwybrau Gyrfa Academaidd

Meini Prawf Uwch - Arloesedd ac Ymgysylltiad (A&Y)

Mae arloesedd ac ymgysylltiad yn ymwneud â gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar gyrff allanol a'r Brifysgol, sy'n seiliedig ar ymdrechion academaidd. Gallai gweithgareddau o'r fath gael eu gyrru gan brosiectau sy'n cael eu harwain gan arloesedd sy'n creu cynhyrchion a phrosesau newydd neu gan ymgysylltiad sy'n hybu ffyrdd o weithio, cyfleoedd addysgiadol/ymchwil, ymgysylltiad cyhoeddus a newidiadau polisi/cyfreithiol newydd. Mewn rhai achosion, bydd elfen o arloesedd ac o ymgysylltiad yn perthyn i'r un corff o waith.

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
1	<p><u>Canlyniad ac Effaith</u></p> <p>Gweithgareddau arloesedd ac ymgysylltiad sy'n arwain at ganlyniadau amlwg sy'n ychwanegu gwerth i fusnes, llywodraeth, iechyd a lles, yr amgylchedd, y gymdeithas, bywyd diwylliannol a sefydliadau allanol eraill ac iddynt ddylanwad cenedlaethol/rhyngwladol sylweddol.</p> <p><i>Sylwer: Gall hyn ddigwydd ar sail arloesedd neu ymgysylltiad.</i></p> <p>Chwarae rôl weithredol ac arwyddocaol yng nghyfeiriad a datblygiad strategol gwaith A&Y gyda hanes hir o weithgareddau A&Y yn arwain at ganlyniadau amlwg neu gyhoeddiadau yn y cyfryngau perthnasol, (gan ychwanegu gwerth i fusnes, llywodraeth, iechyd, yr</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cyhoeddiadau (o leiaf 4 cyhoeddiad mewn 5 mlynedd) sydd â dylanwad cenedlaethol/rhyngwladol arwyddocaol. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> Cofnod o ymgysylltiad â'r cyfryngau cenedlaethol sy'n addas ar gyfer y maes (o leiaf 4 mewn 5 mlynedd) sydd â dylanwad cenedlaethol/rhyngwladol arwyddocaol. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> Datblygu prosiect newydd neu arloesol sy'n ymgysylltu â nifer o bartneriaid: y GIC, y Llywodraeth, Llundwyr Polisi, y cyhoedd. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> O leiaf 4 enghraifft sy'n dangos cyfraniad ac effaith amlwg ar 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> cynhyrchu cyhoeddiadau, casgliadau neu adroddiadau ac iddynt ddylanwad sylweddol ar sefydliad cenedlaethol (e.e. cyrff proffesiynol, cyrff y llywodraeth, cyrff anllywodraethol (NGOs) a chyrff ymgynghorol cenedlaethol) effaith sylweddol ac amlwg ar fusnes, llywodraeth, iechyd, yr amgylchedd neu fywyd diwylliannol. Yn dylanwadu ar ac yn ychwanegu gwerth uniongyrchol ac amlwg i sefydliad allanol, cyhoeddus neu amgylcheddol ar lefel genedlaethol/rhyngwladol arwyddocaol cyhoeddi neu ymgysylltu'n gyson â chyhoeddiadau neu gyfryngau cenedlaethol/rhyngwladol perthnasol i'r maes, gyda dylanwad cenedlaethol/rhyngwladol arwyddocaol newid o ran ymddygiad, arfer polisi neu gyflwyno gwasanaeth hanes o batentau, hawlfraint ac Eiddo Deallusol arall. Tystiolaeth o bortffolio o ymelwa ar Eiddo Deallusol gan gynnwys cyllido buddsoddiadau, cytundebau trwydded, cyfranddaliadau ac unrhyw weithgareddau trosglwyddo Technoleg perthnasol ac iddo fanteision masnachol sefydlu cwmni deillio hwyluso ymelwa ar gynnyrch neu dechnoleg newydd mewn diwydiant/busnes/arfer datblygu gwaith sy'n dangos effaith (er enghraifft, achosion effaith REF) neu astudiaethau neu weithgareddau eraill sy'n dangos effaith cyfraniad amlwg i ddatblygiad technoleg newydd effaith arwyddocaol ac amlwg ar gorff cenedlaethol neu arfer proffesiynol.

	<p>amgylchedd, y gymdeithas, bywyd diwylliannol neu sefydliadau allanol eraill) sy'n dangos cynnydd parhaus.</p>	<p>sefydliad allanol, amgylchedd neu faes arbenigedd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.</p> <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none">• Portffolio cynyddol o batentau ac Eiddo Deallusol (IP) ac iddynt fudd masnachol.	
--	--	---	--

Llwybrau Gyrfa Academaidd

Meini Prawf Uwch – Arloesedd ac Ymgysylltiad (A&Y) (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
2	<p><u>Prosiectau ac Incwm</u></p> <p>Sicrhau adnoddau allanol priodol Dyfeisio/cynllunio a rheoli prosiectau A&Y.</p> <p>(Llwyddiant cyson o ran sicrhau nawdd sylweddol neu adnoddau eraill er mwyn cefnogi prosiectau. Cyfrifoldeb am ddatblygu ac arwain prosiectau sylweddol a rheoli amserlenni, adnoddau a chanlyniadau prosiectau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau ar amser).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arwain prosiect neu ymgysylltiad sylweddol yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf gan sicrhau canlyniad llwyddiannus trwy sicrhau nawdd sylweddol. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwain portffolio o brosiectau llai sydd, gyda'i gilydd, wedi gwneud cyfraniad ac wedi sicrhau cyllid sylweddol. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arwain rhwydwaith o bartneriaid allanol er mwyn sicrhau adnoddau i alluogi prosiect arwyddocaol. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • arwain prosiectau sylweddol yn llwyddiannus • datblygu ac arwain ceisiadau llwyddiannus am gyllid allanol i gefnogi gweithgaredd arloesedd ac ymgysylltiad • arwain tîm prosiect aml-sefydliadol mawr neu gonsortiw m rhyngwladol • ymelwa'n fasnachol ar ymchwil, trosglwyddo gwybodaeth neu weithgaredd ysgolheigaidd drwy Eiddo Deallusol, gan gynnwys trwydded patent, hawlfraint neu gwmni deillio • tystiolaeth o greu mwy o refeniw ar gyfer y Brifysgol drwy, er enghraifft, drwyddedu Hawliau Eiddo Deallusol (IPR) neu werthu ecwiti mewn cwmnïau deillio (lle bo hynny'n addas i'r ddisgyblaeth) • adnabod ac ymelwa ar farchnadoedd newydd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus (CPD) neu Addysg Trawsgenedlaethol Rhyngwladol (TNE)/gweithgareddau cydweithredol sy'n effeithio ar greu incwm i'r Coleg/Prifysgol • datblygu gweithgareddau ymgysylltiad cyhoeddus neu brosiectau sy'n creu ymgysylltiadau cenedlaethol/rhyngwladol sylweddol • trefnu cynhadledd ryngwladol/addysgol • adnabod meysydd ar gyfer cytundebau ymgynghorol a chreu fframwaith er mwyn sicrhau fod prosiectau'n cael eu cwblhau yn ôl y cynllun • cyfrannu at geisiadau grant gan gyrff cyllido PER neu fel rhan o geisiadau ariannu mwy • cyfrannu at sicrhau incwm sylweddol er mwyn cyfoethogi gweithgareddau'r Coleg, e.e. canolfannau hyfforddi doethuriaid, incwm addysg trawsgenedlaethol.

Llwybrau Gyrfa Academaidd

Meini Prawf Uwch – Arloesedd ac Ymgysylltiad (A&Y) (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
3	<p><u>Cydnabyddiaeth</u></p> <p>Cydnabyddiaeth fel awdurdod cydnabyddedig o fewn y maes am gyfraniad i weithgareddau ymgysylltiad (busnes, llywodraeth, iechyd a lles, yr amgylchedd, y gymdeithas, bywyd diwylliannol neu sefydliadau allanol eraill) ar lefel genedlaethol/ryngwladol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • O leiaf dair enghraifft o gydnabyddiaeth genedlaethol/ryngwladol fel siaradwr gwadd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. <p>NEU</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgymryd â rôl flaenllaw o ran cyfrannu at ganllawiau polisi/safonau cenedlaethol neu sylw ar y cyfryngau. 	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • penodiad i gorff llywodraethol sefydliad diwydiant, proffesiynol, cyhoeddus neu elusennol rhanbarthol neu genedlaethol • tystiolaeth o gyhoeddiadau a gomisiynwyd a gydnabyddir yn genedlaethol • cael gwahoddiad i roi cyngor arbenigol, arbenigedd neu wneud gwaith ymgynghori gan sefydliad allanol • hanes o weithredu fel ymgynghorydd i sefydliadau allanol • gwahoddiadau rheolaidd i gynadleddau cenedlaethol neu ryngwladol neu i gyfarfodydd proffesiynol i draddodi darlithoedd a/neu i roi prif gyfraniadau • gwahoddiad i weithio gyda busnes mawr neu sefydliadau cenedlaethol, asiantaethau llywodraeth neu bwyllgorau eraill neu ymwneud â gweithgorau polisi cenedlaethol • cadeirio pwyllgor rhanbarthol neu genedlaethol, grŵp diddordeb arbennig, panel adolygu neu rwydwaith • chwarae rôl flaenllaw o ran creu, datblygu a rheoli partneriaethau, rhwydweithiau neu grwpiau cydweithredol • arwain/cyfrannu at ganllawiau a safonau polisi cenedlaethol • cydnabyddiaeth genedlaethol/ryngwladol gan gyrrff perthnasol, er enghraifft drwy dderbyn gwobrau, anrhydeddau ac enwebiadau ayb • creu perthynas gyda phartneriaid ymgysylltiad cyhoeddus blaenllaw • cyfrannu at ddatblygiad partneriaethau newydd sy'n ychwanegu gwerth sylweddol i'r Brifysgol, e.e. gyda grwpiau cymunedol.

Iwbybrau Gyrfu Academaidd

Meini Prawf Uwch – Arloesedd ac Ymgysylltiad (A&Y) (parhad)

	Maen Prawf	Lefel Perfformiad Dangosol	Enghreifftiau
4	<p><u>Dylanwadu ar Amgylchedd A&Y y Brifysgol a'i Hyrwyddo</u></p> <p>Dylanwadu ar ac ymgorffori arloesedd a/neu ymgysylltiad drwy weithredu fel esiampl dda a datblygu eraill.</p> <p>(Arwain mentrau A&Y ar lefel Prifysgol neu Goleg o drwy ddylanwadu ar grwpiau allweddol o fewn Brifysgol er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau mewn lle er mwyn gallu manteisio'n llawn ar y buddion posib sy'n deillio o weithgareddau A&Y).</p>	<p>O leiaf tair enghraifft o effaith neu ddylanwad yn ystod y pum mlynedd diwethaf, ar lefel y Brifysgol neu'r Coleg..</p>	<p><i>Arddangos, gan ddefnyddio dull myfyriol, eich cyfraniad personol ac effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud. Dyma rai enghreifftiol fel canllaw:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • sefydlu cyrsiau newydd (yn cynnwys dysgwyr proffesiynol, hyfforddiant ymchwil arbenigol, Datblygiad Proffesiynol Parhaus) yn seiliedig ar waith A&Y. • sefydlu cynlluniau ar draws y Brifysgol yn ymwneud â lleoliadau ar gyfer myfyrwyr, gan gynnwys gweithgareddau ymchwil neu Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus, neu weithgareddau eraill trwy gyfrwng busnesau, asiantaethau'r llywodraeth neu gydweithredwyr allanol cenedlaethol eraill • datblygu trefniadau ar gyfer darpariaeth gydweithredol gyda phartneriaid allanol, sydd o fudd ariannol i'r Brifysgol neu'r Coleg • arwain gweithgareddau A&Y y Coleg • gweithio gydag uwch reolwyr i ddatblygu strategaeth, polisi, gweledigaeth a chynlluniau i symud A&Y ymlaen ar lefel Coleg neu Brifysgol, e.e. gweithgareddau Effaith REF, yr agenda effaith ehangach a/neu gefnogi neu fentora cydweithwyr ym maes datblygiadau effaith • datblygu eraill i fod yn awdurdod A&Y cydnabyddedig o fewn y Coleg • cyfrannu tuag at sicrhau fod gweithgareddau wedi'u halinio â strategaeth A&Y y Coleg/Prifysgol • datblygu gweithgareddau sy'n ymgorffori ac yn galluogi Ymgysylltiad Cyhoeddus gydag ymchwil (PER) gydag effaith ar lefel Colegol • cyfrannu at ymgysylltiad gyda nifer fawr o gyflogwyr sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth o ran blwyddyn mewn diwydiant, lleoliadau haf, ayb. • cyfrannu at ddatblygiadau sy'n sicrhau elw sylweddol ar fuddsoddiadau o safbwynt gweithgareddau'r Coleg, e.e. meddalwedd, canolfannau hyfforddi doethuriaid, gweithgareddau addysgol trawsghenedlaethol (TNE).

Noder:

- Mae'r Lefelau Perfformiad Dangosol wedi eu cyfrifo ar sail Cyfatebiaeth llawn amser (FTE). Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysiant, rhaid i'r disgwyliadau fod yn realistig o safbwynt maint yr allbwn. Rhaid i'r lefelau yma gael eu cyfrif pro-rata ar gyfer y rhai sydd ar gytundeb rhan amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau personol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.
- Pan fydd mwy nag un Lefel Perfformiad Dangosol, dynodir blaenoriaeth strategol y Brifysgol mewn print bras.

Lefelau Perfformiad Dangosol Llwybr Gyrfa Academaidd

Nodyn:

Cyfrifwyd Lefelau Perfformiad Dangosol ar sail Amser Llawn Gyfatebol. Er mwyn sicrhau tryloywder, cysondeb a chynhwysedd, rhaid i ddisgwyliadau fod yn realistig o ran maint yr allbwn. Rhaid cyfrifo'r lefelau hyn ar sail pro-rata ar gyfer rhai sy'n gweithio ar gytundeb rhan-amser. Dylai staff sydd ag amgylchiadau unigol gael y cyfle i rannu effaith yr amgylchiadau hyn ar eu gweithgaredd.

ATODIAD A – YMCHWIL

1. Allbynnau Ymchwil

Cyfanswm treigl 5 mlynedd y cyhoeddiadau gyda gradd seren.
Diffinnir y flwyddyn fel blwyddyn galendr, h.y. 1 Ionawr tan 31 Rhagfyr.

Nodwch os gwelwch yn dda mai'r unig gyhoeddiadau a ddangosir yn yr Adolygiad Datblygiad Proffesiynol (ADP) ar hyn o bryd yn rhai sydd ond:

- i. Wedi'u cofnodi ar System Wybodaeth Ymchwil y Brifysgol (RIS) ac
- ii. Wedi cael eu hasesu drwy Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2014) ac ymarferion REF llai wedi hynny

Mae lefelau dangosol fel a ganlyn:

Ymchwil Craidd

Nifer o gyhoeddiadau
2 x gyhoeddiad o safon

Ymchwil Uwch

Rôl	Nifer y cyhoeddiadau
Darlithydd	4 x 3*
Uwch Ddarlithydd	4 x 3*
Athro Cyswllt	3 x 3* 1 x 4*
Athro	2 x 3* 2 x 4*

Noder os gwelwch yn dda fod papur y cadarnhawyd ei fod yn cael ei gyflwyno i'r REF fel cyhoeddiad â phwysau dwbl yn cael ei ystyried fel dau.

2. Incwm Grant

Cyfartaledd treigl 5 mlynedd o werth yr incwm grant a ddyfarnwyd. Diffinnir y flwyddyn fel blwyddyn academiaidd h.y. 1 Awst hyd at 31 Gorffennaf. Y cyfnod cofnodi yw 1 Awst 2013 hyd at 31 Gorffennaf 2018.

Sut y cyfrifir hyn?

Fe gyfrifir y lefelau perfformiad dangosol drwy adnabod yr ystod rhwng y chwarteli perthnasol yn y setiau data canlynol ar gyfer pob adran:

- i. Incwm Ymchwil 2014/15 a gofnodwyd yng Nghofnod Cyllid yr Awdurdod Safonau Addysg Uwch (HESA) ar gyfer y sefydliadau hynny sydd yn y Grŵp Meincnodi Prifysgolion (UBG) ar gyfer pob pwnc.
- ii. Cyfartaledd tair blynedd Incwm Ymchwil Prifysgol Abertawe, ar lefel adrannol.

Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:

Ymchwil Craidd

Dim lefel ddangosol ar gyfer incwm grant wedi'i chofnodi
Un cais am adnoddau sy'n berthnasol i'r maes bob blwyddyn megis y rhai hynny a ddangoswyd ym meini prawf yr ACP.

Nifer y cyhoeddiadau

2 x gyhoeddiad o safon

Ymchwil uwch

Rôl	Incwm Grant
Darlithydd	Dim lefel ddangosol ar gyfer incwm grant wedi'i chofnodi. Ceisiadau am grantiau ymchwil fel Cyd-ymchwilydd. O leiaf un dyfarniad o fewn 3 blynedd.
Uwch Ddarlithydd	Dylai'r dyfarniad fod rhwng Chwartzel Isaf Prifysgol Abertawe a Chwartzel Isaf UBG ar gyfer gweithgaredd ymchwil personol (PI) a / neu Golegol (fel y dangosir yn y metrigau isod).
Athro Cyswllt	Dylai'r dyfarniad fod rhwng Canolrif Prifysgol Abertawe a Chanolrif UBG ar gyfer gweithgaredd PI yn unig (fel y dangosir yn y metrigau isod).
Athro	Dylai'r dyfarniad fod rhwng Chwartzel Uchaf Prifysgol Abertawe a Chwartzel Uchaf UBG ar gyfer gweithgaredd PI yn unig (fel y dangosir yn y metrigau isod).

Grŵp Meincnodi Prifysgolion (UBG)	
Data'r Brifysgol	

Nodyn: Yr incwm grant dangosol yw cyfanswm y grant dros y 5 mlynedd diwethaf, wedi'i rannu â 5 i roi swm cyfartalog blynyddol fel y'i dangosir yn y tabl isod.

	Incwm Grant ACP 2016	Athro		Athro Cyswllt		Uwch-ddarlithydd	
		Chwartert Uchaf		Chwartert Canolig		Chwartert Isaf	
		Abertawe	UBG	Abertawe	UBG	Abertawe	UBG
Peirianeg	Peirianeg	141	124	57	107	22	81
	Gwyddor Chwaraeon	64	37	23	16	18	15
Gwyddoniaeth	Mathemateg	5	39	2	30	1	22
	Cyfrifiadureg	166	86	37	73	3	46
	Ffiseg	156	177	18	129	4	95
	Daeryddiaeth	82	51	32	35	9	24
	Biowyddorau	46	121	15	80	9	69
Meddygaeth	Meddygaeth	231	169	78	143	7	83
Gwyddorau Dynol ac Iechyd	Gwyddor Iechyd	87	37	13	29	2	27
	Seicoleg	29	74	18	51	8	30
	Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol	180	46	41	38	16	15
Y Celfyddydau a'r Dyniaethau	Hanes	31	22	7	13	1	7
	Clasuron	49	30	26	8	3	4
	Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol	4	12	0.4	7	0.2	3
	Iaith Saesneg	4	12	0.4	7	0.2	3
	Ieithoedd Modern	7	21	2	6	1	4
	Adran Astudiaethau'r Cyfryngau	7	13	4	4	0.3	1
	Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol	72	23	17	16	2	6
	Adran y Gymraeg	29	21	15	6	0	4
	Y Gyfraith	6	10	2	7	0.9	2

Y Gyfraith	Troseddeg	40	46	37	38	33	15
	Rheolaeth						
	Cyfrifeg a Chyllid	48	12	26	8	3	5
	Busnes	5	12	4	8	3	5
	Economeg	57	15	50	8	39	3

Defnyddir data HESA 2014-15 a data mewnol 2012-13 hyd 2014-15 (yn cynnwys ariannu gan ERDF ac ESF)

3. Goruchwylio Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd

Dyma'r nifer o fyfyrwyr Ymchwil Ôl-radd a oruchwyliwyd yn ystod y flwyddyn academaidd yn ôl statws goruchwyliwr cyntaf ac ail oruchwyliwr.

Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:

Ymchwil Craidd

Dim lefel ddangosol ar gyfer goruchwylio Ymchwil Ôl-radd
--

Ymchwil uwch

Rôl	Goruchwylio Ymchwil Ôl-radd
Darlithydd	Dim lefel ddangosol ar gyfer grant goruchwylio Ymchwil Ôl-radd fel goruchwyliwr cyntaf neu ail oruchwyliwr. Ar dîm goruchwylio myfyriwr Ymchwil Ôl-radd cyfredol.
Uwch Ddarlithydd	Goruchwyliwr cyntaf neu ail oruchwyliwr i o leiaf 1 myfyriwr, fel rhan o hanes o oruchwylio myfyrwyr ôl-radd sy'n cwblhau'n llwyddiannus, gan gynnwys PhD.
Athro Cyswllt	Cwblhau o leiaf 1 myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig fel y goruchwyliwr cyntaf yn llwyddiannus o fewn cyfnod o 5 mlynedd ac yn gweithredu fel goruchwyliwr am o leiaf 1 myfyriwr y flwyddyn, fel rhan o gofnod parhaol o gwblhau a goruchwyliaeth myfyriwr ymchwil Ôl-raddedig (gan gynnwys PhD)
Athro	Cwblhau o leiaf 2 myfyriwr Ymchwil Ôl-raddedig fel y goruchwyliwr cyntaf yn llwyddiannus o fewn cyfnod o 5 mlynedd ac yn gweithredu fel goruchwyliwr am o leiaf 2 myfyriwr y flwyddyn, fel rhan o hanes helaeth a chyson o oruchwylio myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n cwblhau'n llwyddiannus (gan gynnwys PhD).

ATODIAD B - ADDYSGU AC YSGOLHEICTOD

Gwerthusiad Modiwlau

Sgôr cyfartalog yr ymatebion ar draws pob modiwl a gydlynwyd neu a addysgwyd ar gyfer y cwestiynau adborth ar fodiwlau:

1. Mae'r adborth ar fy ngwaith hyd yn hyn wedi helpu i wella fy nysgu
2. Rwy'n fodlon, ar y cyfan, gydag ansawdd y modiwl
3. Rwy'n fodlon, ar y cyfan, gyda'm profiad o'r darlithwyr sy'n addysgu ar y modiwl hwn

Sut y cyfrifir hyn?

Cyfrifir y lefelau perfformiad dangosol drwy ddadansoddi dyraniad y sgôr ar gyfer y cwestiynau am bob rôl cyflogai yn yr arolwg diweddaraf. Dewiswyd data chwarter er mwyn adnabod y lefelau isaf.

Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:

Ymchwil Craidd

ACP 2016	
Cwestiynau Gwerthusiad Modiwlau	Chwarter Is (25%)
1. Mae'r adborth ar fy ngwaith hyd yn hyn wedi helpu i wella fy nysgu	3.8
2. Rwy'n fodlon, ar y cyfan gydag ansawdd y modiwl	3.9
3. Rwy'n fodlon, ar y cyfan gyda'm profiad o'r darlithwyr sy'n addysgu ar y modiwl hwn	4.0

Defnyddir data mewnol 2015-16

Addysgu ac Ysgolheictod Uwch

ACP 2016	Athro	Athro Cyswllt	Uwch-ddarlithydd	Darlithydd
Cwestiynau Gwerthusiad Modiwlau	Chwarter Uwch (75%)	Chwarter Canolig (50%)	Canradd 35 (35%)	Chwarter Is (25%)
1. Mae derbyn adborth ar fy ngwaith hyd yn hyn wedi helpu i wella fy addysg	4.5	4.1	4.0	3.8
2. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gydag ansawdd y modiwl	4.7	4.3	4.0	3.9
3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon â'm profiad o'r darlithwyr sy'n addysgu ar y modiwl hwn	4.8	4.5	4.2	4.0

Defnyddir data mewnol 2015-16

Noder: mae'r 35ain canradd rhwng y chwartel is (25%) a'r chwartel canol (50%).

ATODIAD C – Yr Academi Addysg Uwch (AAU)

Mae'r lefelau dangosol fel a ganlyn:

Addysgu Craidd

Yn dal neu'n gweithio tuag at ennill Cymrodoriaeth AAU.

Mae dau lwybr ar gyfer cael Cymrodoriaeth AAU.

Cofnodir "Gweithio'n weitheredol tuag at dderbyn Cymrodoriaeth AAU" fel un o'r canlynol:

i. Ar gyfer y llwybr Tystysgrif Ôl-radd mewn Addysg Uwch:

Ystyrir fod person yn gweithio tuag at y Gymrodoriaeth os yw ef / hi:

- Wedi llwyddo yn y modiwl SL-M01
- Wedi sicrhau marc uwch na'r marc llwyddo yn o leiaf 2 o Elfennau modiwl SL-M02

ii. Ar gyfer y llwybr Achrediad:

Ystyrir fod person yn gweithio tuag at Gymrodoriaeth^[1] os yw ef / hi wedi llwyddo yn y Cwis *Blackboard* a arferai fod y orfodol ynglŷn â'r Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF) a Chymrodoriaeth.

NEU

Wedi cwblhau'r gweithgareddau gwrthrych Dysgu Ar-lein Academi Dysgu ac Addysgu Abertawe (SALT) (sesiwn 2018/19) sy'n ymwneud â Chymrodoriaeth AAU a'r UKPSF.

Nodyn:

Sylwch os gwelwch yn dda, os gwnaethoch gychwyn ar y broses ymgeisio cyn y cyflwynwyd y rhaglen gymorth orfodol ym mis Medi 2016, efallai eich bod wedi cael eich eithrio o'r Cwis. Efallai y bydd angen i gydweithwyr a eithriwyd o'r Cwis, nad ydynt yn llwyddo i ennill cydnabyddiaeth Cymrodoriaeth yn ystod y flwyddyn academaidd 2017/18, wneud y Cwis neu elfennau o'r rhaglen gymorth orfodol er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r canllawiau a'r prosesau ymgeisio diweddaraf. Ceir rhaglen gefnogi a

gynlluniwyd i roi'r gefnogaeth orau bosib i chi er mwyn gwneud cais ar gyfer dyddiad cau o'ch dewis chi. Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: <https://salt.swan.ac.uk/cy/routes-to-fellowship/>

Addysgu Uwch

Rôl	HEA
Darlithydd	Cymrawd AAU neu gyfatebol.
Uwch Ddarlithydd	Cymrawd AAU neu gyfatebol.
Athro Cyswllt	Uwch Gymrawd yr AAU neu gyfatebol neu wedi derbyn enwebiad ar gyfer Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol.
Athro	Cydnabyddiaeth genedlaethol am addysgu rhagorol / effaith strategol er enghraifft fel Prif Gymrawd yr AAU neu Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol neu ar restr fer ar gyfer Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol

[1] Mae'r Term 'Cymrodoriaeth' yn golygu pob categori o Gymrodoriaeth a gefnogir gan y llwybr SAR – Cyswllt, Cymrawd neu Uwch Gymrawd